**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

4 Gorffennaf 2018

Annwyl Russell

Rwy'n ysgrifennu i gynnig sesiwn briffio technegol i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar y Model Buddsoddi Cydfuddiannol newydd.

Bydd y Model yn cael ei ddefnyddio i fuddsoddi dros £1bn mewn seilwaith cyhoeddus, yn ogystal â rhaglen fuddsoddi uchelgeisiol Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio cyllidebau cyfalaf. Bydd yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n cyflawni ystod o amcanion polisi cyhoeddus ehangach.

Ar 20 Mehefin, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ynghylch hyrwyddo budd y cyhoedd drwy ddefnyddio'r Model hwn. Mae ar gael yn:

https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/publicinterestusingmim/?skip=1&lang=cy

Gan fod y pwyllgor ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad i gyflwr ffyrdd yng Nghymru, a bod ganddo ddiddordeb ehangach yn y Model, byddwn yn falch iawn o gynnig cyfle i'r aelodau ddysgu mwy amdano mewn sesiwn briffio technegol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Os yw hyn o ddiddordeb i chi, a fyddai clercod eich pwyllgor gystal â chysylltu â'm swyddfa breifat i drefnu sesiwn?

Rwy'n ymestyn y gwahoddiad hwn i aelodau o'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.